




## A CENTRE'S GUIDE TO Awards and Certificates in Working with Substance Misuse



**These brand new qualifications have been especially designed for those who work with substance misusers, either as:**

- Continuous Professional Development for those who already hold a relevant professional qualification e.g. nursing, social work, teaching, police, probation.
- Continuous Professional Development for those who already hold a relevant Level 3 NVQ e.g. Health and Social Care, Working with Offending Behaviour.
- A specialist qualification for those working in the field but who cannot undertake a full Level 3 NVQ due to the nature of their work i.e. part time or voluntary workers.

The qualifications are relevant to workers in a range of statutory services who have regular contact with substance misusers e.g. probation, social services, health services, teachers, police and who want to increase their level of competence around working with substance misusers.

It is also relevant to those working within specialist substance misuse services either with adults or children and young people. These services may be statutory or voluntary and will usually have Service Level Agreements with local Drug Action Teams (DATs), Community Safety Partnerships (CSPs) or Crime and Disorder Reduction Partnerships (CDRPs).

The development of these qualifications has had the full support of the Home Office, Department of Health, the National Treatment Agency (NTA) and the Substance Misuse Policy Development Team, Welsh Assembly Government.

The qualifications are part of the new Qualifications and Credit Framework for England, Wales and Northern Ireland, which means that Units within the qualifications have been assigned a clear Level and Credit value and can be used to progress to further qualifications in the Justice, Health and Social Care sectors.



The qualifications are based on the agreed National Occupational Standards for the sector (including DANOS, Youth Justice, Health and Social Care and Community Justice) and have the full endorsement of Skills for Health and Skills for Justice and the support of Skills for Care and Development.

### **What qualifications are available?**

Four qualifications are available in this suite.

**Level 3** Award in Working with Substance Misuse.

**Level 3** Certificate in Working with Substance Misuse.

**Level 4** Award in Working with Substance Misuse.

**Level 4** Certificate in Working with Substance Misuse.

### **Who should take this qualification?**

The qualifications are suitable for a wide range of substance misuse workers and in different contexts. They can be used by workers already holding a relevant Level 3 NVQ such as Health and Social Care/Working with Offending Behaviour or a professional qualification in a related field such as social work, nursing, youth work, teaching and probation. They can also be used by workers who cannot access the full Level 3 qualification because of the particular nature of their working context or role. i.e. they are a part-time or voluntary worker.

NB: If the learner does not already hold a professional qualification or relevant Level 3 NVQ and if it is possible for them to take a relevant Level 3 NVQ, the NVQ should be the first qualification taken before moving onto the Award or Certificate.



## What is the content of the qualification?

The final qualification gained is based on the selection of Units relevant to the learner's work role. Each Unit has been assigned a Level and Credit value. Learners can select from a choice of 33 available Units.

The Award is gained through the achievement of a minimum of 10 Credits and the Certificate through the achievement of a minimum of 18 Credits.

Each credit equates to 10 hours of learning.

### Some examples of the Level 3 Units available are:

(the NOS that these have been derived from are in italics)

- Recognise indications of substance misuse and refer individuals to specialists (4 Credits) *AA1*.
- Enable individuals who misuse substances to identify and use health and social care services and facilities (4 Credits) *AA3/HSC330*.
- Support individuals who are substance users (7 Credits) *AB2*.
- Identify and act upon immediate risk of danger to substance misusers (4 Credits) *AB5*.
- Provide services to those affected by someone else's substance use (4 Credits) *AB7*.

### Some examples of the Level 4 Units are:

(the NOS that these have been derived from are in italics)

- Develop, implement and review care plans for individuals who misuse substances (6 Credits) *AG1*.
- Analyse agency processes to retain individuals in contact with substance misuse services (6 Credits) *AG4*.
- Assist children and young people to be supported by substance use services (7 Credits) *B802*.
- Contribute to the development of organisational policy and practice (6 Credits) *BA3*.
- Enable children and young people to address their substance use (6 Credits) *B804*.



**Depending on the particular service in which the learner works, there may be some Units which are more appropriate than others for example:**

(the NOS that these have been derived from are in italics)

- Administer medication to individuals, and monitor the effects  
(Level 3; 5 Credits) *AH2*.
- Enable individuals who misuse substances to change their offending behaviour  
(Level 4; 8 Credits) *D302*.

Units at Levels 3 and 4 can be used in the same qualification. However for the qualification to be given a Level 4 at least 60% of the total credit must be from Level 4 Units.

### **Do the qualifications form part of a recognised framework?**

These qualifications are approved by the Qualifications Regulators for use in England, Wales and Northern Ireland. They are based on the National Occupational Standards agreed by the Sector Skills Councils and that represent agreed best practice. This means that they are the qualifications most widely recognised by regulators, workforce development organisations and employers as the benchmark for the sector.

The qualifications are accredited within the newly emerging Qualifications and Credit Framework (QCF) which will ultimately replace the existing National Qualifications Framework (NQF). The QCF is a new system for assigning and awarding credit based on the content of the individual Units. Individual Units are then combined to create qualifications by the Awarding Bodies. The achievement of an Award, Certificate or Diploma is governed by the amount of credit contained within a qualification. In these qualifications an Award is gained with a minimum of 10 credits and a Certificate is gained with a minimum of 18 credits.

As these qualifications are derived from the National Occupational Standards relevant to the drug and alcohol field, Units achieved within these qualifications are directly equivalent and can be used as direct transfers within the relevant NVQs in the Health and Social Care and Justice sectors.



### **How is the qualification assessed?**

These qualifications are work based awards and learners' skills and knowledge are assessed in the workplace whilst they are working directly with people who misuse substances such as drugs and alcohol. They must be working with substance misusers or work within a substance misuse setting or agency on a full or part time basis and in paid or voluntary work. If learners require any additional training prior to assessment this can be based in or out of the workplace or by distance or e-learning.

These new qualifications also allow for full range of evidence sources associated with NVQs including input of evidence by an identified expert witness. Guidance on the types of assessment and evidence requirements are given in the Awarding Body qualifications handbooks.

### **What publications are available?**

When you register a candidate you will automatically receive copies of the Awarding Body's qualification handbooks. These contain the Learning Outcomes for all the Units, the Assessment Criteria for the Units and the Evidence Requirements. The Handbooks will also contain any additional guidance to support assessors, verifiers and learners.

You can also obtain a range of information materials from QCA including:

Simplifying Qualifications: a guide for employers.

The Qualifications and Credit Framework: an introduction.



## Are there any other qualifications that may be of interest?

You might also be interested in these qualifications:

**NVQ in Health and Social Care**

**NVQ Health**

**NVQ in Working with Offending Behaviour**

### KEY Points:

- Designed for people working with in the full range of substance misuse settings.
- 'Approved' by the Sector Skills Councils and recognised by workforce and service regulators across England, Wales and Northern Ireland.
- Accredited by QCA, DCELLS and CCEA on the new Qualifications and Credit Framework (QCF).
- Can be used as specialist qualifications for continuing professional development.
- Uses the same assessment methods and evidence as NVQs.
- On the Credit and Qualification Framework for Wales (CQFW).

### For Further Information

Please contact:

Tony Sharp (City & Guilds) [tony.sharp@cityandguilds.com](mailto:tony.sharp@cityandguilds.com)

Shirley Eden (Edexcel) [shirley.eden@edexcel.org.uk](mailto:shirley.eden@edexcel.org.uk)




CANLLAWIAU I GANOLFANNAU AM  
Ddyfarniadau a Thystysgrifau mewn Gweithio gyda  
Chamdddefnydd Sylweddau





Skills for Business is an employer-led network consisting of 25 Sector Skills Councils and the Sector Skills Development Agency. Through labour market intelligence, the identification of skills needs at all Levels and its influence on the UK's education and learning infrastructure, the network aims to increase productivity in business and public services.



## **Mae'r cymwysterau newydd sbon hyn wedi cael eu llunio'n arbennig i'r rhai sy'n gweithio gyda chamddefnyddwyr sylweddau, un ai fel:**

- Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r rhai sydd â chymhwyster proffesiynol perthnasol yn barod e.e. nyrso, gwaith cymdeithasol, dysgu, heddlu, gwasanaeth prawf.
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r rhai sydd â NVQ lefel 3 perthnasol yn barod e.e. Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gweithio gydag Ymddygiad Troseddol.
- Cymhwyster arbenigol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes ond nad ydynt yn gallu ymgymryd â NVQ lefel 3 llawn oherwydd natur eu gwaith h.y. gweithwyr rhan amser neu wirfoddol.

Mae'r cymwysterau yn berthnasol i weithwyr mewn amrywiaeth o wasanaethau statudol sydd â chyswllt rheolaidd â chamddefnyddwyr sylweddau e.e. y gwasanaeth prawf, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd, addysg ac sydd eisiau cynyddu lefel eu cymhwysedd ym maes gweithio gyda chamddefnyddwyr sylweddau.

Maent hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol gydag oedolion neu blant a phobl ifanc. Gall y gwasanaethau hyn fod yn statudol neu wirfoddol ac fel rheol bydd ganddynt Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Thimau Gweithredu ar Gyffuriau Lleol (TGG), Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC) neu Bartneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn (PGTA).

Mae datblygiad y cymwysterau hyn wedi cael cefnogaeth y Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd, yr Asiantaeth Triniaeth Genedlaethol (NTA) a Thim Datblygu'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r cymwysterau yn rhan o'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCC) newydd i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sydd yn golygu fod gwerth Lefel a Chredyd clir wedi cael ei neilltuo i unedau o fewn y cymwysterau a gellir defnyddio hyn i symud ymlaen i gymwysterau yn y sectorau Cyfiawnder, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



Mae'r cymwysterau yn deillio o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cytunedig i'r sector (yn cynnwys DANOS, Cyfiawnder Ieuencid, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyfiawnder Cymunedol) ac mae ganddynt gefnogaeth lawn Sgiliau Iechyd a Sgiliau Cyfiawnder a chefnogaeth Sgiliau Gofal a Datblygiad.

### Pa gymwysterau sydd ar gael?

Mae pedwar cymhwyster ar gael yn y gyfres hon.

**Dyfarniad** Lefel 3 mewn Gweithio gyda Chamddefnydd Sylweddau.

**Tystysgrif** Lefel 3 mewn Gweithio gyda Chamddefnydd Sylweddau.

**Dyfarniad** Lefel 4 mewn Gweithio gyda Chamddefnydd Sylweddau.

**Tystysgrif** Lefel 4 mewn Gweithio gyda Chamddefnydd Sylweddau.

### Pwy ddylai ymgymryd â'r cymhwyster hwn?

Mae'r cymwysterau yn briodol ar gyfer ystod eang o weithwyr camddefnydd sylweddau ac mewn gwahanol gyd-destunau. Gallant gael eu defnyddio gan weithwyr sydd eisoes wedi ennill NVQ Lefel 3 perthnasol fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Gweithio gydag Ymddygiad Troseddol neu gymhwyster proffesiynol mewn maes perthnasol fel gwaith cymdeithasol, nyrsio, gwaith ieuencid a'r gwasanaeth prawf. Gallant gael eu defnyddio hefyd gan weithwyr sydd yn methu cael gafael ar y cymhwyster Lefel 3 llawn oherwydd natur neilltuol eu swydd neu rôl h.y. maent yn weithwyr rhan amser neu wirfoddol.

D.S: Os nad oes gan y dysgwr gymhwyster proffesiynol neu NVQ lefel 3 perthnasol eisoes ac os bydd hi'n bosibl iddynt gymryd NVQ lefel 3 perthnasol, yna'r cymhwyster cyntaf y dylent ymgymryd ag ef yw'r NVQ cyn symud ymlaen i'r Dyfarniad neu Dystysgrif.



## Beth yw cyd-destun y cymhwyster?

Mae'r cymhwyster terfynol a enillir wedi'i seilio ar y dewis o Unedau sy'n berthnasol i rôl gwaith y dysgwr. Neilltuwyd gwerth Lefel a Chredyd i bob Uned. Gall dysgwyr ddewis o 33 Uned sydd ar gael.

Enillir y Dyfarniad drwy gyflawni o leiaf 10 Credyd a'r Tystysgrif drwy gyflawni o leiaf 18 Credyd.

Mae pob credyd yn cyfateb â 10 awr o ddysgu.

### Dyma rai enghreifftiau o'r Unedau Lefel 3 sydd ar gael:

(mae'r SGC y mae'r rhain wedi deillio ohonynt mewn llythrennau italig)

- Adnabod arwyddion camddefnydd sylweddau a chyfeirio unigolion at arbenigwyr (4 Credyd) *AA1*.
- Galluogi unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau i adnabod a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol (4 Credyd) *AA3/HSC330*.
- Cefnogi unigolion sy'n defnyddio sylweddau (7 Credyd) *AB2*.
- Adnabod a gweithredu ar risg perygl enbyd i gamddefnyddwyr sylweddau. (4 Credyd) *AB5*.
- Darparu gwasanaethau i rai sydd wedi'u heffeithio gan gamddefnydd sylweddau rhywun arall (4 Credyd) *AB7*.

### Dyma rai enghreifftiau o'r Unedau Lefel 4:

(mae'r SGC y mae'r rhain wedi deillio ohonynt mewn llythrennau italig)

- Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gofal i unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau (6 Credyd) *AG1*.
- Dadansoddi prosesau asiantaethau i gadw unigolion mewn cysylltiad â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (6 Credyd) *AG4*.
- Cynorthwyo plant a phobl ifanc i gael eu cefnogi gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau (7 Credyd) *B802*.
- Cyfrannu at ddatblygu polisi ac ymarfer cyfundrefnol (6 Credyd) *BA3*.
- Galluogi plant a phobl ifanc i ymdrin â'u defnydd o sylweddau (6 Credyd) *B804*.



## Yn dibynnu ar y gwasanaeth neilltuol y mae'r dysgwyr yn gweithio ynddo, gall rhai unedau fod yn fwy priodol nag eraill, er enghraifft:

(mae'r SGC y mae'r rhain wedi deillio ohonynt mewn llythrennau italig)

- Gweini meddyginiaeth i unigolion a monitro'r effeithiau (Lefel 3; 5 Credyd) *AH2*.
- Galluogi unigolion sydd yn camddefnyddio sylweddau i newid eu hymddygiad troseddol (Lefel 4; 8 Credyd) *D302*.

Gellir defnyddio unedau o lefelau 3 a 4 yn yr un cymhwyster. Fodd bynnag, er mwyn cael cymhwyster Lefel 4 rhaid i o leiaf 60% o'r holl gredydau fod o unedau Lefel 4.

## Ydy'r cymwysterau yn ffurfio rhan o fframwaith cydnabyddedig?

Mae'r cymwysterau hyn yn cael eu hachredu gan y Rheoleiddwyr Cymwysterau ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac maent wedi'u seilio ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a gytunwyd gan y Cynghorau Sgiliau Sector sy'n cynrychioli'r arfer gorau. Mae hyn yn golygu mai'r rhain yw'r cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn bennaf gan reoleiddwyr, sefydliadau datblygu gweithlu a chyflogwyr fel y meincnod i'r sector.

Mae'r cymwysterau yn cael eu hachredu o fewn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau newydd (FfCC) a fydd, yn y pen draw, yn disodli'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol presennol. Trefn newydd yw FfCC ar gyfer dyfarnu cymwysterau a chredydau ar sail cynnwys yr unedau unigol. Mae'r unedau unigol yn cael eu cyfuno wedyn i greu cymwysterau gan y Cyrff Dyfarnu. Mae cyflawni Dyfarniad, Tystysgrif neu Ddiploma yn cael ei reoli gan faint y credyd sydd mewn cymhwyster. Yn y cymwysterau hyn rhaid cael o leiaf 10 credyd i gael Dyfarniad ac o leiaf 18 Credyd i gael Tystysgrif.

Gan fod y cymwysterau hyn yn deillio o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol i'r sector cyffuriau ac alcohol, mae'r unedau a gyflawnir yn y cymwysterau hyn yn cyfateb yn uniongyrchol ac yn gallu cael eu defnyddio fel trosglwyddiadau uniongyrchol o fewn yr NVQau perthnasol yn y sectorau lechyd a Gofal a Chyfiawnder.



## **Sut mae'r cymwysterau yn cael eu hasesu?**

Mae'r cymwysterau yn ddyfarniadau seiliedig ar waith ac mae sgiliau a gwybodaeth dysgwyr yn cael eu hasesu yn y gweithle wrth iddynt weithio'n uniongyrchol gyda phobl sy'n camddefnyddio sylweddau megis cyffuriau ac alcohol. Rhaid iddynt fod yn gweithio gyda chamddefnyddwyr sylweddau neu o fewn lleoliad neu asiantaeth camddefnydd sylweddau yn rhan neu lawn amser ac mewn gwaith cyflogedig neu wirfoddol. Os bydd dysgwyr angen hyfforddiant pellach cyn cael asesiad yna gellir seilio hwn tu mewn neu du allan i'r gweithle drwy e-ddysgu neu ddysgu o bell.

Mae'r cymwysterau newydd hyn hefyd yn caniatáu'r holl amrediad o ffynonellau tystiolaeth sy'n gysylltiedig â NVQ yn cynnwys mewnbwn tystiolaeth gan dyst arbenigol penodol. Rhoddir canllawiau am y mathau o asesiad a gofynion tystiolaeth yn llawlyfrau cymwysterau'r Corff Dyfarnu.

## **Pa gyhoeddiadau sydd ar gael?**

Pan fyddwch yn cofrestru ymgeisydd byddwch yn derbyn copïau o lawlyfrau cymwysterau'r Corff Dyfarnu yn awtomatig. Mae'r rhain yn cynnwys y Canlyniadau Dysgu ar gyfer yr holl Unedau, y Meini Prawf Asesu ar gyfer yr Unedau a'r Gofynion Tystiolaeth. Bydd y Llawlyfrau hefyd yn cynnwys unrhyw ganllawiau ychwanegol i gefnogi aseswyr, dilyswyr a dysgwyr.

Gallwch gael ystod o ddeunyddiau gwybodaeth gan QCA yn cynnwys:

Simplifying Qualifications: a guide for employers.

The Qualifications and Credit Framework: an introduction.



## A oes unrhyw gymwysterau eraill a allent fod o ddiddordeb?

Efallai bydd gennych ddiddordeb yn y cymwysterau hyn hefyd:

**NVQ mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol**

**NVQ lechyd**

**NVQ mewn Gweithio gydag Ymddygiad Troseddol**

### **Pwyntiau allweddol:**

- Wedi'u llunio ar gyfer pobl sy'n gweithio yn yr holl amrywiaeth o leoliadau cam-drin sylweddau.
- Yn cael eu 'cymeradwyo' gan y Cynghorau Sgiliau Sector a'u cydnabod gan y gweithlu ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- Wedi'u hachredu gan QCA, DCELLS a CCAA ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau newydd.
- Yn gallu cael eu defnyddio fel cymwysterau arbenigol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Yn defnyddio'r un dulliau asesu a thystiolaeth â NVQs.
- Ar Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (FCCCC).

### **Am wybodaeth bellach**

Cysylltwch â:

Tony Sharp (City & Guilds) [tony.sharp@cityandguilds.com](mailto:tony.sharp@cityandguilds.com)

Shirley Eden (Edexcel) [shirley.eden@edexcel.org.uk](mailto:shirley.eden@edexcel.org.uk)

# sgillau

AR GYFER BUSNES

Mae Sgillau ar gyfer Busnes yn rhwydwaith a arweinir gan gyflogwyr sy'n cynnwys 25 Cyngor Sgillau Sector ac Asiantaeth Datblygu Sgillau Sector. Drwy wybodaeth y farchnad, adnabod anghenion sgillau ar bob lefel a'i dylanwad ar drefn addysg a dysgu'r DU, mae'r rhwydwaith yn amcanu at gynyddu cynhyrchiant mewn busnes a gwasanaethau cyhoeddus.